

CYFARFOD: **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

DYDDIAD: **14 CHWEFROR 2019**

TEITL: **RHAGLEN GYFALAF 2018/19 –
ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2018**

PWRPAS: **Adroddiad Monitro ar Wariant ac Ariannu'r Rhaglen
Gyfalaf**

GWEITHREDIAD: **Derbyn y wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r
Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet**

SWYDDOG CYSWLLT: **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID**

AELOD CABINET: **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS**

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Rhaglen Gyfalaf 2018/19 - Adolygiad Diwedd Tachwedd 2018) i'r Cabinet ar 22 Ionawr 2019 ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu, ynghyd â'r daflen penderfyniad perthnasol sydd ar y dudalen nesaf.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:

Taflen Penderfyniad Cabinet 22/01/2019

Rhaglen Gyfalaf 2018/19 - Adolygiad Diwedd Tachwedd 2018 (adroddiad Cabinet 22/01/2019)

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	22 Ionawr 2019
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	6 Chwefror 2019

PWNC

Eitem 9:RHAGLEN CYFALAF 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2018) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £9,000 cynnydd mewn defnydd o fenthycia
 - £3,502,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
 - £30,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
 - £488,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
 - £220,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill
-

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad
